

Pennaeth Ysgol Glan Clwyd

School:	Ysgol Glan Clwyd	Posted:	8th March 2019
Location:	Denbighshire	Expires:	22nd March 2019
Contract Term:	Permanent		12:00 AM
Contract Length:	Permanent	Start Date:	1st September
Salary:	L28 - L34 (£77,614 - £89,901)		2019
Hours:	Full Time	Job ID:	1034627
		Job	YYGC00190bW1RDE
		Reference:	



Ysgol Glan Clwyd

Mae Llywodraethwyr Ysgol Glan Clwyd am benodi arweinydd egniol, arloesol, cryf a chilir ar gyfer adeiladu a parhau'r weledigaeth o 'Gyflawni Rhagoriaeth gyda'n Gilydd'. Arweinydd sy'n meddu ar y sgiliau allweddol i gynnal ac atgyfnerthu'r seiliau cadarn sydd eisoes wedi eu gosod i gyflawni'r nod hwn.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymarferydd campus sy'n gwbl ymroddedig i ethos Gymraeg yr ysgol gan sicrhau cynhwysiant a'r safonau uchaf o addysgu mewn awyrgylch sydd yn dangos 'Parch a Pharodrwydd a'r balchder o Berthyn i deulu Ysgol Glan Clwyd.

Mae hwn yn gyfle ardderchog i unigolyn sydd â;

- Gweledigaeth ac ymrwymiad clir i weithredu'n frwd dros ymdrechion yr ysgol i sicrhau, ehangu a chryfhau'r Gymraeg, Cymreictod a'r ethos Gymreig o fewn yr ysgol ac yn y
- gymuned ehangach;
- Profiad o fod yn arweinydd effeithiol ac o ysbrydoli eraill;
- Ymrwymiad clir i wella cyfleoedd bywyd ein holl fyfyrwyr;
- Angerdd gwirioneddol dros addysgu a dysgu gyda disgwyliadau uchel gan staff a myfyrwyr;
- Gallu amlwg i feithrin ymrwymiad a pherchnogaeth ac i hawlio parch a chefnogaeth gan bawb yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach;
- Sgiliau cyfathrebu o'r radd flaenaf ar gyfer pob achlysur.

Mae Ysgol Glan Clwyd yn ysgol gyfun ar gyfer 982 o bobl ifanc 11-18 oed gyda thraddodiad o ddarparu profiadau, ethos ac addysg cwbl Gymraeg i bobl ifanc yr ardal. Yn dilyn buddsoddiad o £15.9m yn ystod y blynyddoedd diweddar, rydym, erbyn hyn yn gallu cynnig amgylchedd dysgu gwych a chyfleusterau addysgu heb eu hail.

Safeguarding Statement:

Ysgol Glan Clwyd is committed to safeguarding and promoting the welfare of children, young people and vulnerable adults and expects all staff and volunteers to share this commitment. We particularly welcome applications from under represented groups including ethnicity, gender, transgender, age, disability, sexual orientation or religion.